





Data  
Cymru

Arweiniad i...  
**Gynllunio a  
chyflwyno grwpiau  
ffocws**

Cynhyrchwyd gan: Data Cymru  
Cyhoeddwyd: Medi 2021

 029 2090 9500

 [ymholiadau@data.cymru](mailto:ymholiadau@data.cymru)

 [www.data.cymru](http://www.data.cymru)

Mae'r canllaw hwn ar gael yn [Saesneg](#) hefyd.

# Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| 1. Ein harweiniad i gynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws ..... | 1  |
| 2. Beth yw grŵp ffocws? .....                                  | 1  |
| 2.2 Beth yw canlyniadau grŵp ffocws? .....                     | 2  |
| 3. Pryd mae grwpiau ffocws yn ddefnyddiol?.....                | 2  |
| 3.1 Helpu i gynnig cipolwg ar ymchwil bresennol .....          | 2  |
| 3.2 Llywio ymchwil newydd/bellach .....                        | 3  |
| 3.3 Ffynhonnell ymchwil ar ei phen ei hun.....                 | 3  |
| 4. Cynllunio eich grŵp ffocws.....                             | 4  |
| 4.1 Deall y cwestiwn/cwestiynau ymchwil .....                  | 4  |
| 4.2 Ai grŵp ffocws yw'r dewis gorau?.....                      | 5  |
| 4.3 Datblygu cwestiynau grŵp ffocws.....                       | 6  |
| 5. Recriwtio a chyfranogiad mewn grŵp ffocws.....              | 8  |
| 5.1 Poblogaeth, sampl, a chynrychioldeb.....                   | 8  |
| 5.2 Pwy ddylai fod mewn grŵp ffocws?.....                      | 9  |
| 5.3 Faint o gyfranogwyr ddylai fod mewn un grŵp ffocws? .....  | 12 |
| 5.4 Faint o grwpiau ffocws sy'n ddigon? .....                  | 13 |
| 5.5 Sut i sicrhau cyfranogwyr.....                             | 15 |
| 6. Cyflwyno grwpiau ffocws effeithiol.....                     | 21 |
| 6.1 Sgiliau a phriodweddau'r hwylusydd .....                   | 21 |
| 6.2 Cychwyn grŵp ffocws .....                                  | 22 |
| 6.3 Llywio'r drafodaeth.....                                   | 23 |
| 6.4 Beth yw grŵp ffocws rhithiol?.....                         | 25 |
| 6.4 Dod â'ch grŵp ffocws i ben.....                            | 26 |
| Cyfeiriadau a darllen pellach .....                            | 28 |

## 1. Ein harweiniad i gynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws

Mae'r arweiniad hwn yn rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol, i unrhyw un sy'n dymuno cael trosolwg o pam, sut a phryd y byddech chi efallai'n trefnu ac yn cynnal grŵp ffocws i gefnogi'ch gwaith. Mae'r arweiniad:

- yn esbonio beth yw grwpiau ffocws, eu pwrpas, a pham a phryd i'w defnyddio;
- yn amlinellu'r prif elfennau mae eu hangen i baratoi grwpiau ffocws effeithiol;
- yn disgrifio sut i gynllunio grŵp ffocws;
- yn amlinellu sut i ddethol cyfranogwyr a sicrhau cyfranogiad; gan gynnwys dulliau o gefnogi cyfranogwyr anodd eu cyrraedd; ac
- yn esbonio chyflwyno grŵp ffocws – o'r dechrau i'r diwedd.

Mae'r arweiniad yn fwriadol 'sylfaenol' ei ymagwedd a'i gynnwys, gan ragdybio ychydig neu ddim gwybodaeth flaenorol am baratoi a chynnal grwpiau ffocws. Mae llawer o adnoddau ychwanegol ar-lein ac mewn llyfrau cyfeirio sy'n gallu rhoi manylion pellach i'r sawl sydd am ddysgu mwy. Rydyn ni'n rhestru rhai o'r rhain yn yr adran '[Cyfeiriadau a darllen pellach](#)'.

## 2. Beth yw grŵp ffocws?

*"Grŵp bach o bobl y mae eu hymateb i rywbeth (fel cynnyrch Newydd neu ddelwedd gwleidydd) yn cael ei astudio i bennu'r ymateb a all gael ei ddisgwyl oddi wrth poblogaeth fwy o faint"*

Geiriadur Merriam Webster

Dull ymchwilio yw grŵp ffocws. Yn aml bydd ganddynt ddefnyddiau lluosog, ond maent yn cael eu defnyddio'n amlach i edrych ar ganfyddiadau, teimladau a phrofiadau pobl a grwpiau o rywbeth, er enghraifft cynnyrch, neu i sbarduno syniadau, ac ati.

Mae grwpiau ffocws yn cynnwys grŵp bach o bobl (fel arfer rhwng chwech ac wyth cyfranogwr), sy'n cael eu harwain trwy'r drafodaeth gan hwylusydd. Fel arfer un neu ddau hwylusydd a fydd yn arwain y grŵp ffocws. Eu cyfrifoldeb nhw yw llywio sgwrs y grŵp a sicrhau bod pob pwynt wedi cael ei drafod.

## 2.2 Beth yw canlyniadau grŵp ffocws?

Mae grwpiau ffocws yn sesiynau grŵp sy'n creu llawer o drafodaeth, sy'n golygu eu bod yn ardderchog fel dull ymchwil ansoddol. Maent yn cynhyrchu gwybodaeth sy'n ddisgrifiadol ac yn esboniadol, gan gynnwys:

- **Canfyddiadau** – Meddyliau, teimladau a phrofiadau cyfranogwyr, er enghraifft, sut mae pobl yn teimlo ynglŷn â brechiad.
- **Gwybodaeth gyd-destunol** - Straeon, naratifau a gwybodaeth gefndir am ganfyddiadau a phrofiadau pobl. Er enghraifft, beth oedd y digwyddiadau a arweiniodd pobl at benderfynu cael brechiad?

## 3. Pryd mae grwpiau ffocws yn ddefnyddiol?

Mae grwpiau ffocws yn gallu bod yn offeryn defnyddiol i'ch helpu i ddeall mater, cynnyrch neu wasanaeth. Maent yn gallu cael eu defnyddio mewn llawer o sefyllfaoedd, gan gynnwys fel rhan o brosiect ymchwil ehangach, fel darn o ymchwil ar ei ben ei hun i ddatguddio gwybodaeth newydd, a/neu i lywio cyfleoedd ymchwil newydd. Mae grwpiau ffocws yn dda iawn am ymchwil ansoddol (profiadau/barn). Fel arfer mae'r wybodaeth a gasglwch yn ben-ogored. Nid ydynt yn ddefnyddiol, felly, am greu data meintiol (rhifau). Os bydd angen rhifau arnoch chi hefyd i gefnogi'ch ymchwil, yna bydd angen i chi feddwl am ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol fel ei gilld.

### 3.1 Helpu i gynnig cipolwg ar ymchwil bresennol

Mae grwpiau ffocws yn gallu cael eu defnyddio o fewn prosiectau ymchwil sy'n dibynnu ar nifer o ddulliau ymchwil a chasglu data i roi eglurdeb neu ddilysrwydd. Er enghraifft:

**I roi eglurdeb pellach neu gyd-destun** – Gall grwpiau ffocws gael eu defnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth sydd wedi cael ei hennill drwy ddulliau ymchwil a chasglu data eraill e.e. holiaduron neu wybodaeth reoli i **roi manylion ac esboniad pellach** am y canfyddiadau rhifyddol (meintiol). Yma, byddai grwpiau ffocws yn rhoi i chi gyd-destun y rhifau.

**Enghraifft:** gallai data gweinyddu ddarparu gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi derbyn brechiad COVID-19, a'u nodweddion (oedran, rhyw, hil ac ati). Yna gallai grŵp ffocws gael ei ddefnyddio i ddarganfod, gyda rhai grwpiau penodol e.e. grwpiau oedran neu ethnig penodol, pam maent wedi bod yn fwy neu'n llai tebygol o gael eu brechu. Byddai hyn yn arwain at wybodaeth rifyddol (meintiol), a chyd-destunol (ansoddol).

**I ddilysu canfyddiadau ymchwil ymhellach** – Gall grwpiau ffocws gael eu defnyddio i gynnig **cywirdeb neu ddibynadwyedd** pellach i ganfyddiadau ymchwil a geir drwy dulliau ymchwil neu gasglu data eraill. Mae hyn yn rhoi dilysrwydd pellach i ganfyddiadau ymchwil ac yn cael ei alw'n **triongli** (defnyddio dulliau neu ffynonellau data lluosog).

**Enghraifft:** gall cyfweiliadau ymchwil manwl unigol gael eu cynnal gydag ymarferwyr i ddeall eu profiad o weithio ar ymyriad newydd. Gall grwpiau ffocws gael eu cynnal hefyd gyda nifer uwch o ymarferwyr (sampl mwy o faint), i ychwanegu dibynadwyedd pellach i'r wybodaeth a gafwyd drwy'r cyfweiliadau. Gall yr wybodaeth hon gael ei defnyddio hefyd ochr yn ochr â dadansoddiad polisi i gael darlun llawn o'r rhesymau dros lwyddiant neu fethiant ymyriad.

### 3.2 I lywio ymchwil newydd/bellach

Gall grwpiau ffocws gynnig **dirnadaeth newydd** rydych efallai am ei deall neu ei dilysu ymhellach drwy gynnwys gweithgarwch ymchwil pellach. Gall yr ymchwil bellach yma fod o natur feintiol neu ansoddol.

**Enghraifft:** efallai y cynhaliwch gyfres o grwpiau ffocws i ddeall profiad menywod o weithio mewn sector penodol. Gallwch chi ddefnyddio'r canfyddiadau o'r grŵp ffocws i lywio dyluniad holiadur ar raddfa ehangach i ddeall mwy am ganfyddiadau'r grŵp ffocws a nodi tueddiadau ar draws grwpiau gwahanol o fenywod.

### 3.3 Ffynhonnell ymchwil ar ei phen ei hun

Gall grwpiau ffocws gael eu defnyddio ar eu pen eu hun i greu dealltwriaeth o fater, cynnyrch neu wasanaeth. O'u defnyddio'n ffynhonnell wybodaeth unigol, gall grwpiau ffocws gynhyrchu data a gwybodaeth sy'n fach o raint maint ond sy'n fanwl ac yn gyfoethog. Fodd bynnag, ni fydd eich canfyddiadau mor gadarn â phe bai grwpiau ffocws yn cael eu defnyddio ar y cyd â dulliau ymchwil eraill.

**Enghraifft:** Mewn ymchwil i'r farchnad, grwpiau ffocws yn aml yw'r unig ddull o gasglu gwybodaeth y dibynnir arno i ddeall sut byddai grwpiau penodol yn ymateb i gynhyrchion a strategaethau marchnata penodol.

## 4. Cynllunio'ch grŵp ffocws

Yn aml, graddfa ac ansawdd y gwaith paratoi cyn eich grŵp ffocws sy'n pennu ei effeithiolrwydd. Mae **pedair** elfen allweddol i'w hystyried wrth gynllunio grŵp ffocws, sef:

- **Pwrpas eich ymchwil** – deall pwrpas y cwestiwn/cwestiynau ymchwil yn llawn, er mwyn gofyn y cwestiynau cywir a phennu beth rydych ei eisiau o'r canlyniadau.
- **Ymdrin yn effeithiol â'r cwestiynau ymchwil** – creu cwestiynau a dulliau annog a fydd yn ysgogi sgwrs am eich cwestiynau ymchwil.
- **Dethol y cyfranogwyr** – sut cewch chi'r bobl gywir i fynychu'r grŵp ffocws?
- **Maint y grŵp a faint o grwpiau ffocws** – bydd arnoch chi angen digon o gyfranogwyr ond nid gormod er mwyn cael trafodaeth ystyrlon. Hefyd, faint o grwpiau ffocws fydd angen i chi eu cynnal er mwyn cael yr wybodaeth mae arnoch chi ei hangen?

### 4.1 Deall y cwestiwn/cwestiynau ymchwil

Mae'n bwysig deall cwestiwn neu nod yr ymchwil mae'r grŵp ffocws wedi'i fwriadu i'w drafod, a phob rhan wahanol y cwestiwn hwnnw.

Yn benodol, mae angen deall:

- Pa faterion (e.e. cysyniadau, polisiau neu brosesau) ydy'r cwestiwn ymchwil yn ceisio ymchwilio iddynt?
- Beth yw cwmpas eich ymchwil? Er enghraifft, beth yw'r:
  - a. daearyddiaethau (trefi, dinasoedd, rhanbarthau neu wledydd);
  - b. cyfnodau (wythnos, diwrnod ac ati); a'r
  - c. maes/meysydd gwasanaeth (e.e. gofal cymdeithasol, iechyd meddwl)?
- Oddi wrth bwy mae angen gwybodaeth arnoch chi a pha wybodaeth oes ei hangen i ymdrin â'r cwestiwn ymchwil?
- Pam ydych chi eisiau'r wybodaeth hon? Beth fydd effaith cynnal yr ymchwil hon?

Mae'r cwestiwn ymchwil isod wedi'i rannu er mwyn amlygu ei nodau:

Beth yw profiadau tadau newydd o wasanaethau cymorth rhianta a gynigir yn awdurdod lleol A?

Pa faterion (cysyniadau, polisiau neu brosesau) yw'r cwestiwn ymchwil yn ceisio ymchwilio iddynt?

- *Anghenion cymorth tadau newydd*
- *Y math o gymorth a gynigir i dadau newydd*
- *Pa mor dda mae'r cymorth yma'n bodloni eu hanghenion.*

Beth yw cwmpas eich ymchwil (daearyddiaethau, cyfnodau, meysydd gwasanaeth)?

- *Awdurdod lleol A*
- *Gwasanaethau cymorth rhianta*
- *Cymorth ôl-enedigol*
- *Gwasanaethau iechyd meddwl*
- *Iechyd sylfaenol e.e. meddygon teulu.*

Oddi wrth bwy ydych chi angen gwybodaeth a pha wybodaeth oes ei hangen?

- *Tadau ar draws croesdoriad o grwpiau (demograffeg ar sail oedran, ethnigrwydd, anghenion iechyd)*
- *Darparwyr gwasanaethau cymorth rhianta*
- *Darparwyr gofal iechyd*
- *Profiadau a chanfyddiad tadau o'r gwasanaethau iechyd a gynigir*
- *Anghenion cymorth tadau*
- *Sut allai gwasanaethau gael eu gwella.*

Pam ydych chi angen yr wybodaeth yma? Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?

- *Teilwra gwasanaethau cymorth i fodloni anghenion tadau newydd yn well*
- *Gwella'r defnydd ar wasanaethau cymorth*
- *Comisiynu a chynllunio mwy gwybodus ar wasanaethau.*

### 4.2 Ai grŵp ffocws yw'r opsiwn gorau?

Yn bwysig, bydd angen i chi ystyried hefyd ai grŵp ffocws yw'r ffordd orau o ymdrin â'r cwestiwn ymchwil. Mewn rhai achosion, nid grwpiau ffocws fyddai'r llwybr ymchwil mwyaf addas neu berthnasol i'w gymryd. Gall hyn ddigwydd pan nad yw'r cwestiwn ymchwil yn gofyn am farn neu feddyliau pobl, e.e. os ydych chi am ddeall cyfansoddiad demograffig ardal, neu'n syml



eisiau deall nifer y bobl sy'n defnyddio cynllun y Llywodraeth, fel y Credyd Cynhwysol, yna efallai nad grŵp ffocws fyddai'r opsiwn priodol.

Yr allwedd i benderfynu a ydy grwpiau ffocws yn mynd i fod o gymorth yw ymdrin â'r cwestiynau a amlygir yn **Adran 4.1**; bydd hyn yn eich helpu i wneud penderfyniadau ymchwil gwybodus. Bydd **Adran 3** yn eich helpu i benderfynu sut y bydd grŵp ffocws yn cefnogi'ch nodau ymchwil hefyd.

### 4.3 Datblygu cwestiynau grŵp ffocws

Mae'n bwysig paratoi a datblygu cwestiynau cyn eich grŵp ffocws, a fydd yn ymdrin â chwestiynau a nodau eich ymchwil. Mae angen i gwestiynau grŵp ffocws ennyn sgysiau a thrafodaethau (mor naturiol â phosib) er mwyn creu dirnadaeth gyfoethog, fanwl thrylwyr o fater. Am y rheswm hwn, mae angen i grwpiau ffocws gael eu strwythuro o amgylch nifer o gwestiynau i ganiatáu rhoi digon o amser a sylw i bob un. Dylai'r cwestiynau hyn for yn glir, yn gymharol hawdd eu trafod, ac yn gryno i annog ymgysylltu. Yn ddelfrydol, dylai grwpiau ffocws bara rhwng awr ac awr a hanner, ond dim mwy. Bydd hyn yn atal lludded cyfranogwyr. Mae **tri** math o gwestiynau grŵp ffocws, sef:

#### Cwestiynau ymgysylltu

Mae cwestiynau ymgysylltu yn cael eu defnyddio ar ddechrau grwpiau ffocws gan helpu i gyflwyno cyfranogwyr i'r sesiwn a'r pwnc. Yn nodweddiadol, ni ddylai fod mwy nag un cwestiwn ymgysylltu. Dylai cwestiynau ymgysylltu:

- Gyflwyno cyfranogwyr yn gynnil ond yn glir i'r grŵp ffocws a'r pwnc dan drafodaeth.
- Ysgogi diddordeb cyfranogwyr a gwneud iddynt eisiau cymryd rhan yn y drafodaeth.

#### Enghraifft

**Cwestiwn ymchwil:** Beth yw profiadau tadau newydd o wasanaethau cymorth rhianta a gynigir yn awdurdod lleol A?

**Cwestiwn ymgysylltu:** *Ers dod yn dad, beth yw'r ddau neu dri phrif beth rydych wedi eisiau help gyda nhw?*

### Cwestiynau archwilio

Mae cwestiynau archwilio yn cael eu gofyn yn dilyn y cwestiwn ymgysylltu ac yn rhan annatod o'r grŵp ffocws. Defnyddiwch y cwestiynau hyn sicrhau'r wybodaeth rydych yn ceisio ymdrin â hi i sicrhau bod y drafodaeth o fudd. Ni ddylai fod mwy na thri neu bedwar cwestiwn archwilio, a dylent:

- Fod yn glir ac yn hawdd eu hateb.
- Fod yn agored ac yn archwiliadol eu natur.
- Annog cyfranogwyr i roi atebion manwl a thrylwyr.
- Ffurio'r mwyafrif o gwestiynau grŵp ffocws.

### Enghraifft

**Cwestiwn ymchwil:** Beth yw profiadau tadau newydd o wasanaethau cymorth rianta a gynigir yn awdurdod lleol A?

**Cwestiwn archwilio 1:** Pa wasanaethau ydych chi wedi'u defnyddio? Pam oedd angen i chi eu defnyddio neu beidio â'u defnyddio?

**Cwestiwn archwilio 2:** Pa mor fodlon oeddech chi ar y cymorth a gawsoch chi? Beth yw'ch rhesymau am hyn?

**Cwestiwn archwilio 3:** Pe baech chi'n gallu newid un peth am y cymorth a gafodd ei ddarparu i chi, beth fyddai hynny a pham?

### Cwestiynau ymadael

Mae cwestiynau ymadael yn cael eu gofyn olaf i sicrhau bod pob pwynt wedi cael sylw ac nad oes dim wedi'i golli. Dylai cwestiynau ymadael:

- Sicrhau bod pawb yn deall beth sydd wedi cael ei drafod o fewn y prif sesiwn.
- Ganiatáu i arweinwyr grŵp ffocws, ymchwilwyr, a chyfranogwyr edrych eto ar unrhyw beth a oedd yn aneglur o fewn y brif drafodaeth.
- Ymdrin ag unrhyw gwestiynau sydd wedi codi o'r brif drafodaeth.
- Sicrhau bod pawb yn teimlo bod eu barn wedi cael ei chlywed yn ddigonol ac yn gywir.

### Enghraifft

**Cwestiwn ymadael 1:** Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei rannu?

**Cwestiwn ymadael 2:** *Yn ystod y drafodaeth soniodd rhai ohonoch chi rywbeth am xxx. Caswon ni ddim cyfle i'w gynnwys yn y brif drafodaeth, ond fe allai lywio rhai o'n nodau ymchwil. Allech chi ddweud mwy wrthyn ni amdano?*

### 5. Recriwtio a chyfranogiad grŵp ffocws

Mae cyfranogiad da mewn grŵp ffocws yn gallu arwain at ddirnadaeth gynhwysfawr a pherthnasol sy'n gallu bod yn werthfawr i lywio'ch gwaith. I gyflawni hyn, mae'n ddefnyddiol i chi feddwl am:

- **bwy** ydy'ch cyfranogwyr (cynrychiolaeth)?
- **faint o gyfranogwyr grŵp ffocws** oes eu hangen (cynrychiolaeth a maint sampl)?
- **faint o grwpiau ffocws** oes eu hangen i ateb eich cwestiynau'n llawn (dirlawnder thematig a damcaniaethol)?
- beth fydd eich **dull** o gael pobl i gymryd rhan (strategaethau recriwtio)?
- sut fyddwch chi'n **cefnogi cyfranogiad** (GDPR a chyfranogiad cynhwysol)?

#### 5.1 Poblogaeth, sampl, a chynrychioldeb

Cyn penderfynu pwy mae angen i gyfranogwyr eich grŵp ffocws fod, a faint o gyfranogwyr mae eu hangen, mae'n ddefnyddiol i chi ddeall beth sy'n cael ei olygu gan **boblogaeth**, **sampl** a **chynrychioldeb**.

#### Poblogaeth

Ym maes ymchwil, nid yw'r gair "poblogaeth" o reidrwydd yn cyfeirio at nifer y bobl mewn man penodol. Yn hytrach, mae poblogaeth yn golygu'r set o'r holl bobl, gwrthrychau neu ddigwyddiadau cysylltiedig sy'n berthnasol i gwestiwn penodol.

**Enghraifft.** Mae diddordeb gennych chi mewn asesu barn pobl ddi-waith yng Nghymru am y Credyd Cynhwysol.

Y **boblogaeth** fyddai'r **holl bobl ddi-waith yng Nghymru**, a maint y boblogaeth fyddai nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru.

### Sampl

Yn aml mewn ymchwil nid yw'n bosibl cynnwys poblogaeth gyfan o fewn yr astudiaeth, a hynny fel arfer oherwydd cyfyngiadau adnoddau ac amser. Yn hytrach, mae "tafell" neu "is-set" o boblogaeth gyfan yn cael ei defnyddio i ymdrin â'r cwestiynau ymchwil – yr enw ar hyn yw "sampl".

**Enghraifft.** Mae diddordeb gennych chi mewn asesu barn pobl ddi-waith yng Nghymru am y Credyd Cynhwysol.

**Sampl** o'r boblogaeth hon fyddai **nifer penodol** o boblogaeth ddi-waith Cymru, nid pob un.

### Cynrychioledd

Dylai'ch sampl fod yn gysylltiedig â "phwnc eich ymchwil" – pwy yw'ch boblogaeth darged ac adlewyrchu ei nodweddion. Felly byddwch chi am ystyried **maint y boblogaeth gyfan** a **chefndir a nodweddion y boblogaeth** wrth benderfynu ar eich sampl.

**Am fwy o wybodaeth am boblogaeth, samplu a samplau cynrychioliadol gweler ein harweiniad i 'Dylunio a Dadansoddi Arolygon'.**

### 5.2 Pwy ddylai fod mewn grŵp ffocws?

#### **Nodweddion a chefndir cyfranogwyr (cynrychiolaeth)**

Mae nodweddion yn cyfeirio at bob peth sy'n cyfrannu at hunaniaeth pobl ac yn gallu ymwneud â phethau fel oedran, man preswyllo, galwedigaeth, neu nodweddion arbennig a gwarchoddedig, fel anabledd, rhyw, rhywioldeb, statws rhiant, ethnigrwydd, ac ati.

Nid yw grwpiau ffocws fel arfer yn tynnu ar samplau digon mawr i'r canlyniadau fod yn ystadegol gynrychioliadol o'r boblogaeth. Y rheswm am hyn yw bod grwpiau ffocws fel arfer yn ceisio nodi *beth mae pobl yn teimlo neu'n meddwl* am rywbeth yn hytrach na *faint o bobl sy'n meddwl neu'n teimlo* am rywbeth. Fodd bynnag, wrth gynnal grwpiau ffocws, dylech chi bob amser ceisio ystyried a chynnwys pobl sydd â nodweddion sy'n berthnasol i'r cwestiwn ymchwil.

Dylai'ch cwestiwn/cwestiynau ymchwil felly arwyddbostio'n glir y nodweddion a'r cefndiroedd mae angen i chi eu hystyried wrth benderfynu pwy i'w gwahodd i'ch grŵp/grwpiau ffocws.

### Enghraifft 1

**Ymchwil cwestiwn:** Beth yw profiadau tadau newydd o wasanaethau cymorth rhianta a gynigir yn awdurdod lleol A?

Y nodweddion mae angen eu hystyried:

- **Statws fel rhiant** – mae angen i gyfranogwyr fod yn rhieni.
- **Rhyw** y rhiant – gwryw.
- **Ers faint maen nhw'n rhiant** – rhieni newydd, ac efallai'r sawl sydd ar fin mynd yn rhieni.
- **Ardal breswyllo** – mae'r cwestiwn yn edrych ar awdurdod lleol penodol.

### Enghraifft 2

**Ymchwil cwestiwn:** Beth yw profiadau ceiswyr lloches a ffoaduriaid o wasanaethau iechyd meddwl a gynigir yn awdurdod lleol A?

Y nodweddion mae angen eu hystyried:

- **Cenedligrwydd** – mae angen i gyfranogwyr fod yn geiswyr lloches a ffoaduriaid.
- **Hanes iechyd meddwl** – pobl â hanes o anghenion iechyd meddwl.
- **Profiad o wasanaethau iechyd meddwl** – pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu wedi gofyn am gymorth iechyd meddwl yn y gorffennol.
- **Ardal breswyllo** – mae'r cwestiwn yn edrych ar awdurdod lleol penodol.

### Croestoriadedd – ystyriaeth bwysig

Yn aml, mae ymchwil ansoddol yn bwriadu deall sut mae mwy nag un agwedd ar hunaniaeth person yn gallu effeithio ar eu profiad. Er enghraifft, mae gan rywun sy'n rhiant ac yn anabl ddwy nodwedd (neu hunaniaeth) sy'n gallu dylanwadu ar eu profiad o wasanaeth.

### Enghreifftiau

- Gall profiad tad newydd ifanc sy'n defnyddio gwasanaeth cymorth rhieni fod yn wahanol i brofiad tad newydd hŷn sy'n defnyddio'r un gwasanaeth.
- Gall profiad tad newydd heterorywiol sy'n defnyddio gwasanaeth cymorth rhieni fod yn wahanol i brofiadau tad newydd hoyw sy'n defnyddio'r un gwasanaeth.
- Gall profiad tad newydd sy'n ffoadur sy'n defnyddio gwasanaeth cymorth fod yn wahanol i brofiadau tad newydd a anwyd yn y DU.

Mae croestoriadedd yn ystyriaeth bwysig wrth gynnal ymchwil ansoddol am ei fod yn gadael i chi:

- Ddechrau deall pam mae gan unigolion brofiadau cyferbyniol, er gwaethaf rhannu nodwedd gyffredin.
- Gofyn cwestiynau manwl a sensitif a fydd yn caniatáu i chi ddechrau adnabod y pethau cynnil a chymhleth sy'n pennu profiad rhywun.
- Cynllunio a chyflenwi'ch gwaith a'ch gweithgareddau mewn ffyrdd sensitif sy'n canolbwyntio ar y person, gan ystyried y pethau gwahanol sy'n gallu dylanwadu ar brofiadau a disgwyliadau unigolyn. Ceisiwch osgoi defnyddio cynlluniau cyflenwi sy'n trin pob defnyddiwr gwasanaeth yn yr un modd er gwaethaf eu hunaniaethau a'u hanghenion penodol.

### Cyfansoddiad grwpiau ffocws

Mae'n fuddiol meddwl am gyfansoddiad demograffig pob grŵp ffocws. Mae hyn yn cael ei alw'n **gyfansoddiad grwpiau ffocws** neu **broffil grŵp ffocws** ac yn ymwneud â nodweddion y cyfranogwyr. Bydd ystyried cyfansoddiad eich grŵp ffocws yn eich helpu i feddwl am sut allai cyfranogwyr y grŵp ffocws ryngweithio â'i gilydd, a sut mae'r rhyngweithiau hyn yn gallu siapio'r data sy'n cael ei gynhyrchu a dylanwadu ar y canfyddiadau terfynol.

Carfan eich grŵp ffocws yw cyfanswm y bobl sy'n bresennol o fewn **un** grŵp ffocws. Er enghraifft, os penderfynwch gynnwys tadau hŷn ac iau yn eich astudiaeth, efallai y penderfynwch y byddwch yn cynnal un grŵp ffocws gyda thadau hŷn (carfan un) ac un grŵp ffocws gyda thadau iau (carfan dau). Ran amlaf, cynghorir bod gan garfan pob grŵp ffocws o leiaf un nodwedd gyffredin, mwy na hynny'n ddelfrydol, a hynny am ei fod yn golygu

y bydd gan gyfranogwyr **dir cyffredin** a fydd yn eu helpu i uniaethau â'i gilydd. Mae tir cyffredin yn gallu ategu:

- **Dynameg grŵp** – gall cyfranogwyr fod yn debycach o deimlo eu bod mewn lle diogel gyda phobl maen nhw'n gallu uniaethau â nhw.
- **Llif trafodaeth** – pan fydd cyfranogwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gysurus, maent yn debycach o fod yn agored gyda'i gilydd a thrafod eu meddyliau a'u profiadau'n ddirwystr, a allai arwain at ddata cyfoethog a manwl.
- **Cydlyniaeth a chysondeb data** – pan fydd gan gyfranogwyr nodweddiad tebyg, mae siawns uwch y bydd profiadau unigol yn gyfarwydd i aelodau eraill y grŵp. Mae hyn yn gallu arwain at ganfyddiadau sy'n cael eu nodi a'u dilysu gan bawb, gan arwain yn aml at data cydlynus y gellir ei gymharu'n rhwydd â chanfyddiadau carfannau grwpiau ffocws eraill.

### Enghraifft

Gall fod gan grŵp o dadau newydd sydd i gyd yn ffoaduriaid brofiadau tebyg i'w gilydd. Byddai'n werthfawr wedyn cymharu canfyddiadau o'r grŵp ffocws hwn â charfan arall, fel grŵp o dadau newydd a anwyd ym Mhrydain, i nodi sut mae profiadau'r ddau grŵp yn debyg ac yn wahanol.

### “Meddwl grŵp” – ystyriaeth bwysig

Mae'n amhrisiadwy cynhyrchu data o'r tu mewn i un garfan grŵp ffocws a all gael ei gymharu'n hawdd â chanfyddiadau carfan arall. Mae'n bwysig fodd bynnag bod cyfranogwyr yn cael eu hannog i roi gwybodaeth o'u safbwyntiau unigol ac yn eu geiriau eu hun, a hynny am y gall cyfranogwyr, mewn rhai achosion, deimlo dan bwysau i ddarparu profiadau, meddyliau a theimladau sy'n cyd-fynd ag aelodau eraill y grŵp, hyd yn oed os oes ganddynt safbwyntiau a phrofiadau unigol neu wahanol i'w rhannu. Mae hyn yn cael ei alw'n **“feddwl grŵp”** a gall beryglu dilysrwydd canfyddiadau ymchwil. Mae hwyluso crefftus (gweler **Adran 6**) yn gallu helpu i liniaru yn erbyn y risg hwn.

### 5.3 Faint o gyfranogwyr ddylai fod mewn un grŵp ffocws?

At ei gilydd, argymhellir bod angen i un grŵp ffocws gynwnys rhwng chwech a 12 o gyfranogwyr. Mae'r rhif hwn yn cael ei ffafrio am fod angen i'r grŵp fod yn ddigon bach i ganiatáu cipio gwybodaeth fanwl a chyfoethog. Po ddyfnaf y dymunwch fynd, po leiaf mae angen i'r grŵp fod. Hefyd mae angen i'r grŵp fod yn ddigon mawr i gael ei ystyried yn sampl credadwy, a dyna pam nad yw llai na chwe chyfranogwr yn cael ei argymhell. Efallai y byddwch hefyd

yn dymuno osgoi grŵp mor fach bod pobl yn teimlo dan bwysau i wneud pwyntiau arwyddocaol dim ond i lenwi'r tawelwch.

### 5.4 Faint o grwpiau ffocws sy'n ddigon?

Rhywbeth dylech chi ei ystyried hefyd yw faint o grwpiau ffocws oes angen i chi eu cynnal. Cwestiynau defnyddiol i'w hystyried wrth benderfynu ar hwn yw:

**Cyllideb** – Faint o grwpiau ffocws fydd eich cyllideb yn gadael i chi eu cynnal? Mae'n bwysig eich bod yn ystyried anghenion eich ymchwil a'r sampl cyn pennu'ch cyllideb. Er bod cyllideb yn ystyriaeth bwysig, ble bynnag y bo modd, rydym yn cynghori eich bod yn gadael i anghenion eich ymchwil ddylanwadu i raddau helaeth ar eich cyllideb. Bydd hyn yn cefnogi'ch gallu i gynhyrchu canfyddiadau cynhwysfawr a dibynadwy.

**Amser a chyfleustra** – Faint o amser sydd gennych ar gael i gynllunio, cynnal a dadansoddi pob grŵp ffocws? Pa gyfleusterau sydd ar gael i gynnal y grwpiau ffocws hyn? Pa amserlenni ehangach ydych chi'n gweithio tuag atynt? Cynghorwn eich bod yn ystyried anghenion eich ymchwil ac anghenion eich cyfranogwyr cyn gwneud y penderfyniadau hyn. Er enghraifft, oes angen i chi gynnal astudiaeth a fydd yn digwydd dros amserlen fyrrach neu hirach? O'u cynnal dros amserlen hirach, pa gyfleusterau sy'n isel eu cost? Pa gyfleusterau fydd fwyaf cyfleus er mwyn i'ch cyfranogwyr fynychu?

**Dirlawnder** – Dyma pan fyddwch chi wedi cyflwyno cynifer o grwpiau ffocws ei bod yn annhebygol y byddwch yn cynhyrchu unrhyw ganfyddiadau newydd nawr. Mae dirlawnder yn digwydd pan fydd **ailadroddiad (neu ailymddangosiad) pynciau, pwyntiau a themâu penodol** ar draws gwahanol garfannau grŵp ffocws, yn digwydd tro ar ôl tro. Pan fyddwch wedi cyrraedd y pwynt hwn, nid oes fawr o werth mewn cynnal mwy o grwpiau ffocws. Mae **dau** fath o ddirlawnder. Bydd eich cwestiwn ymchwil a'ch nod yn pennu'r math o ddirlawnder mae angen i chi ei ystyried:

### Dirlawnder thematig

Dyma pam fydd themâu (pynciau) sy'n codi o fewn eich grwpiau ffocws yn cael eu crybwyll dro ar ôl tro, ac nid yw unrhyw themâu newydd yn dod i'r amlwg. Er enghraifft, efallai y bydd themâu: tywydd, rhwydweithiau cymorth, a gwaith yn codi mewn cyfres o grwpiau ffocws am iselder, ac ar ôl nifer o grwpiau ffocws, nid yw unrhyw themâu newydd yn dod i'r amlwg. Byddai dirlawnder thematig fel arfer yn cael ei geisio pan fyddwch chi'n cynnal grwpiau ffocws am resymau archwiliadol (i ddarganfod rhywbeth cwbl newydd neu anhysbys).



Disgrifir hyn yn **Adran 3.2** ac mae'n cyfeirio at pan ddefnyddir grwpiau ffocws i lywio neu gynhyrchu ymchwil bellach.

### **Dirlawnder ystyr (neu ddirlawnder damcaniaethol)**

Mae hyn yn cyfeirio at y teimladau, cysyniadau, a storïau sy'n gysylltiedig â phob thema. Er enghraifft, efallai y gwelwch fod thema "tywydd" yn codi llawer mewn grwpiau ffocws sy'n trafod iselder. Bydd yr ystyron a'r disgrifiadau canlynol am y tywydd yn codi o bosib: teimladau o dristwch yn y gaeaf, ac egni a gobaith yn y gwanwyn, bod yn segur ac yn flinedig neu'n ddiflas yn y gaeaf, ac ati. Mae'r holl ddisgrifiadau hyn yn dechrau creu darlun ystyrlon (neu ddamcaniaethol) o thema "tywydd" ac sut mae'n cael ei brofi a'i ystyried gan gyfranogwyr. Byddai dirlawnder ystyr am y "tywydd" yn cael ei gyrraedd pan welwch nad yw canfyddiadau'ch grŵp ffocws yn cynnig unrhyw wybodaeth neu ddisgrifiadau newydd amdano, ac felly, nid oes dim byd newydd i'w ddysgu am y thema hon.

Mae dirlawnder ystyr yn cael ei geisio'n aml pan fyddwch chi'n defnyddio grwpiau ffocws i wneud synwyr o ganfyddiadau ymchwil presennol a gafwyd trwy ddulliau ymchwil eraill. Disgrifir hyn yn **Adran 3.1** ac yn cyfeirio at pan fydd grwpiau ffocws yn cael eu defnyddio i gynnig eglurdeb neu ddirnadaeth bellach i ymchwil sy'n bodoli'n barod.

### **Canllawiau dirlawnder:**

- Pan fyddwch chi wedi cyrraedd dirlawnder thematig neu ystyr, gallwch chi roi'r gorau i gynnal eich grwpiau ffocws.
- Os eich nod yw cyrraedd **dirlawnder thematig** trwy eich grwpiau ffocws, cynghorir yn gyffredinol bod hyn yn cael ei gyrraedd erbyn i bum grŵp ffocws gael eu cynnal ar draws pob cefndir a phob nodwedd.
- Os ydych chi'n gobeithio cyrraedd **dirlawnder ystyr**, argymhellir bod hyn yn cael ei arwain gan y cyfranogwyr mae eich ymchwil cwestiwn wedi'i anelu atyn nhw. Er mwyn i'r ystyr mewn perthynas â phob thema gael ei bennu'n llawn, mae angen cynnal digon o grwpiau ffocws gyda phobl sydd â **nodweddion** sy'n berthnasol i'ch cwestiwn ymchwil (fel rhieni, lle maen nhw'n byw, rhywedd, oedran, ac ati). Mae ymchwil gwyddor gymdeithasol ddiweddar<sup>1</sup> yn cynghori bod hyn yn cael ei gyflawni pan gynhelir rhwng un a dau grŵp ffocws gyda phobl sydd â phob un o'r nodweddion perthnasol.

---

<sup>1</sup> <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC6635912/>

### Enghraifft

Os ydych chi'n edrych ar brofiadau tadau newydd o wasanaeth cymorth, ac mae diddordeb gennych chi mewn dynion hŷn a dynion iau, byddai dirlawnder ystyr yn cael ei gyrraedd ar ôl i chi siarad â:

- rhwng un a dau grŵp o dadau hŷn, a
- rhwng un a dau grŵp o dadau iau.

- Mae dirlawnder yn ystyriaeth anodd ond gwerthfawr. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn yr adran '[Cyfeiriadau a darllen pellach](#)'

### 5.5 Sut i sicrhau cyfranogwyr

I gynhyrchu canfyddiadau dilys a dibynadwy o'ch grŵp ffocws, mae angen i chi ystyried:

- nifer y cyfranogwyr mae eu hangen (eich **sampl**);
- cefndiroedd a nodweddion perthnasol eich cyfranogwyr (**cynrychiolaeth**); a
- nifer angenrheidiol y grwpiau ffocws (**dirlawnder**).

Ar ôl i chi benderfynu ar yr uchod, bydd angen i chi ystyried y dull a ddefnyddiwch i recriwtio cyfranogwyr. Yn aml mae hyn yn cymryd cryn dipyn o amser a chynllunio am y gall fod yn anodd sicrhau'r nifer cywir o gyfranogwyr grŵp ffocws sydd â'r nodweddion gofynnol, felly cynghorir dechrau cynllunio'ch strategaeth recriwtio mor gynnar ym mhroses y grŵp ffocws â phosibl. Mae dulliau niferus y gallwch ddewis o'u plith neu eu cyfuno i sicrhau cyfranogwyr grŵp ffocws. Mae hyn yn cael ei alw eich **strategaeth samplu**.

#### Opsionau samplu

Mae deall hap-samplu a samplu heb fo dar hap yn ddefnyddiol a bydd yn eich helpu i ddeall pam mae **samplu heb fod ar hap** yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn grwpiau ffocws.

#### Hap-samplu

Hap-samplu yw'r dull sy'n cael ei ffafrio mewn ymchwil ystadegol ac mae hyn yn cyfeirio at bob aelod o boblogaeth yn meddu ar siawns **cyfartal** o gymryd rhan. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio dull samplu "dall", sy'n golygu bod yr holl gyfranogwyr yn cael eu dewis ar hap.

**Hap-samplu:** Mae'r boblogaeth gyfan o fewn ardal awdurdod lleol yn derbyn ymyriad iechyd y cyhoedd. Mae angen i dîm iechyd y cyhoedd asesu cynnydd 40% ohonyn nhw er mwyn gwgerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad. Mae enwau holl breswylwyr yr awdurdod lleol yn cael eu gosod o fewn loteri, ac mae 40% ohonyn nhw'n cael eu dewis ar hap o'r loteri i gymryd rhan yn yr astudiaeth.

### Samplu heb fod ar hap

Mae samplu heb fod ar hap yn cyfeirio at **dargedu pobl yn fwriadol** i gymryd rhan mewn ymchwil. Yn aml mae'r opsiwn hwn yn cael ei ddewis pan nad yw'n realistig defnyddio dull ar hap oherwydd cyfyngiadau cyllideb neu amser neu oherwydd problemau mynediad. Mae samplu heb fod ar hap yn cael ei ddefnyddio hefyd am ei fod yn gadael i chi dargedu unigolion neu grwpiau **penodol** sydd â nodweddion sy'n berthnasol i'r ymchwil cwestiwn.

**Samplu heb fod ar hap:** Mae tîm iechyd y cyhoedd yn penderfynu gwahodd pobl sy'n byw o fewn pellter tair milltir i'w swyddfa i gymryd rhan yn eu hastudiaeth o ymyriad iechyd, er bod pawb sy'n byw o fewn yr awdurdod lleol hwnnw yn derbyn yr ymyriad.

### Dulliau samplu heb fod ar hap

Mae nifer fawr o strategaethau recriwtio a all gael eu defnyddio i gefnogi dull samplu heb fod ar hap, sef:

**Samplu cyfleuster** – dyma pan fydd cyfranogwyr yn cael eu dethol am eu bod yn gyfleus neu'n hawdd eu cyrraedd. Mae'n digwydd yn aml gyda grwpiau a chymunedau rhag-osodedig.

### Enghreifftiau

Mae diddordeb gan yr ymchwilydd mewn deall teimladau rhieni sengl, felly mae'n dewis cynnal grŵp ffocws gyda grŵp rhieni sengl sy'n bodoli'n barod.

Mae diddordeb gan yr ymchwilydd mewn deall barn menywod hŷn, felly mae'n cynnal grŵp ffocws mewn bore coffi mae'n gwybod bod llawer o fenywod hŷn yn ei fynychu.

**Samplu pelen eira** – mae hwn yn fath o samplu cyfleuster pan fydd pobl sydd wedi cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil yn atgyfeirio neu'n argymhell pobl maen nhw'n eu hadnabod i gymryd rhan yn yr un ymchwil. Defnyddir hyn yn aml pan fydd yr ymchwilydd yn ei chael yn anodd nodi cyfranogwyr posibl.

### Enghraifft

Mae'r ymchwilydd yn dymuno cael barn am Gwrs Tystysgrif Addysg Ôlraddedig (TAR) oddi wrth athrawon sy'n gynnar yn eu gyrfa. Mae'r ymchwilydd yn dechrau drwy fynd at athrawon yn eu gyrfa gynnar mewn ysgol lle maen nhw'n gwybod bod athrawon yn eu gyrfa gynnar yn gweithio.



Mae'r athrawon yn eu gyrfa gynnar yn cyfeirio'r ymchwilydd at bobl a wnaeth y cwrs TAR gyda nhw.



Mae'r bobl o'r cwrs TAR yn cyfeirio'r ymchwilydd at eu cydweithwyr nhw sydd yn eu gyrfa gynnar.

**Samplu bwriadus** – mae hon yn ffurf o samplu heb fod ar hap lle pennir yn glir nodweddion a chefnidiroedd y bobl mae eu hangen i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws.

### Enghreifftiau

Mae'r ymchwilydd yn dymuno deall sut mae pobl ifanc sy'n byw mewn ardal yn teimlo am droseddau cylllell. Felly mae'n gwahodd pobl ifanc â theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan droseddau cylllell i gymryd rhan mewn grŵp ffocws am ei bod yn debyg y bydd ganddynt fwy i'w ddweud am y pwnc na phobl ifanc eraill yn yr ardal.

Mae'r ymchwilydd yn dymuno asesu effaith ymyriad a ddefnyddir gan yr holl staff ar grwpiau LGBT+. Felly mae'n gwahodd defnyddwyr LGBT+ i grŵp ffocws er bod yr holl staff yn defnyddio'r ymyriad, am eu bod dim ond yn asesu profiadau grwpiau LGBT+.

### Cefnogi cyfranogiad

Wrth wahodd pobl i'ch grŵp ffocws, mae'n werth chweil myfyrio ar y pethau sy'n gallu rhwystro eu presenoldeb a'u cyfranogiad llawn ac sut allwch chi eu llywio i gefnogi cyfranogiad cynhwysol. Pethau i'w hystyried:

**Cydsyniad ac ymddiriedaeth** – Sut allwch chi greu amgylchedd lle mae cyfranogwyr o bob rhan o gymdeithas yn teimlo'n ddiogel yn rhannu eu barn a'u profiadau'n agored? Rydym ni'n argymhell defnyddio ffurflenni cydsyniad ar sail gwybodaeth. Dylech drefnu bod y rhain ar gael i gyfranogwyr cyn y grŵp ffocws. Os na fydd hyn yn bosibl, argymhellir yn gryf eu darparu ar ddechrau'r grŵp ffocws, a bod yr hwylusydd yn trafod y ffurflenni cydsyniad gyda'r cyfranogwyr i sicrhau eu bod yn deall yn llawn unrhyw oblygiadau. Ni all y grŵp ffocws ddigwydd nes bod y ffurflenni cydsyniad wedi cael eu llofnodi gan bob cyfranogwr. Mae angen i ffurflenni cydsyniad gynnwys gwybodaeth am:

- Bwnc a phwrpas yr ymchwil;
- Pa ddata a gaiff ei gasglu a chyda phwy bydd yn cael ei rannu;
- Sut caiff y data ei recordio (gan gynnwys nodiadau ysgrifenedig, a recordiadau sain);
- Sut caiff y data ei ddefnyddio;
- Am faint caiff y data ei gadw, a pham; a'r
- Yr opsiwn i dynnu'n ôl.

Efallai y byddwch chi am ystyried dulliau ychwanegol o wella lefelau ymddiriedaeth cyfranogwyr, a fydd o bosibl yn cael eu siapio gan garfan eich grŵp ffocws a'u hanghenion a diddordebau penodol. Er enghraifft, mewn rhai sefyllfaoedd, gallai fod yn briodol datblygu cytundebau â chyfranogwyr ar sut y byddan nhw'n rhyngweithio o fewn y grŵp ffocws. Dylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud gan gyfranogwyr eich grŵp ffocws a'i lywio gan beth maen nhw'n gyfforddus ag ef. Er enghraifft, efallai y bydd grŵp o rieni'n penderfynu gwirio eu ffonau pob hanner awr i wneud yn siŵr bod eu plant yn iawn. Efallai y bydd grŵp arall yn penderfynu cadw eu ffonau wedi eu diffodd. Bydd grŵp arall o bosib yn teimlo nad oes angen cytundebau o'r fath.

**Lleoliad ac anghenion teithio** – Ble mae'r mwyafrif o gyfranogwyr eich grŵp ffocws wedi'u seilio? Pa mor hawdd ydy hi iddyn nhw deithio i'r grŵp ffocws? Allwch chi wneud pethau'n haws trwy ddefnyddio cyfleuster sy'n gyfleus a/neu drwy gefnogi anghenion teithio? Oes angen eu had-dalu i sicrhau nad yw pobl mewn amgylchiadau anfanteisiol yn cael eu tangynrychioli?

**Cyfrifoldebau gofalu** – Pa gyfrifoldebau gofalu sydd gan gyfranogwyr? Sut allwch chi wneud eu cyfranogiad yn bosibl gan ystyried y pethau hyn?

**Amser y grŵp ffocws** – Ydy'r mwyafrif o gyfranogwyr eich grŵp ffocws yn gweithio? Beth am gyfrifoldebau eraill sydd ganddyn nhw? Efallai y cewch chi weithio o gwmpas y cyfyngiadau hyn trwy gynnal y grŵp ffocws ar ddyddiau cyfleus, e.e. penwythnosau neu nosweithiau.

**Ystyriaethau iaith** – Beth yw iaith gyntaf y mwyafrif o'ch cyfranogwyr? Os nad Saesneg yw hi, pa ystyriaethau cyfieithu oes eu hangen i gefnogi cyfranogiad ystyrllon gan bob cyfranogwr?

**Gwahaniaethau dysgu** – Mae bob amser yn ddefnyddiol meddwl am sut y gall gwybodaeth gael ei chyfathrebu mewn dulliau hwylus i gynulleidfaoedd sydd ag anghenion a dulliau dysgu amrywiol. Efallai y bydd angen amlygu hyn yn arbennig wrth weithio gyda chynulleidfaoedd iau (er enghraifft plant), neu oedolion â gwahaniaethau dysgu. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n fuddiol meddwl am offer creadigol sy'n gallu cefnogi cyfranogiad gan bob grŵp. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn yr adran '**Cyfeiriadau a darllen pellach**'.

**Anghenion iechyd a lesiant** – Oes unrhyw anghenion iechyd a lesiant i'w hystyried wrth gynllunio cyflwyno'ch grŵp ffocws? Pa mor aml dylai egwylliau gael eu rhoi i gefnogi lefelau egni ac ymgysylltu? Pa luniaeth fydd yn cefnogi cyfranogiad? A fydd angen i anghenion lesiant y grŵp ddylanwadu ar hyd y grŵp ffocws? Fel arfer argymhellwn nad yw grwpiau ffocws yn para am fwy nag awr a hanner.

**GDPR** – Mae'n bwysig cael y mesurau diogelu data a phreifatrwydd yn eu lle, a gall hynny wella ymddiriedaeth yn y broses ymchwil. Mae angen polisi preifatrwydd clir, a ddylai amlinellu:

- Pam mae'r data yn cael ei gasglu;
- Sut bydd yn cael ei storio, ei rannu, a'i ddefnyddio;
- Bod gan gyfranogwyr yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg; ac
- A gaiff y grŵp ffocws ei recordio neu beidio a phwy fydd â mynediad i'r recordiad, a phryd caiff y recordiad ei ddifa (mae gan gyfranogwyr yw hawl i wrthod hyn).

**Cofiwch na ddylech chi ymgymryd ag unrhyw waith casglu data cyn siarad â Swyddog Diogelu Data (DPO) eich sefydliad.**

**Cymhellion** – Mae cymhellion yn cael eu defnyddio weithiau mewn grwpiau ffocws i ddangos i gyfranogwyr bod eu hamser a'u cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Efallai y dymunwch ystyried a yw cynnig cymhellion i'ch cyfranogwyr yn briodol. I'ch helpu i wneud y penderfyniad hwn, meddyliwch am y sefyllfaoedd pan fyddai'n briodol ac yn deg cynnig cymhellion, a'r rhesymau drostynt.

### Enghreifftiau

Os ydych chi'n cynnal grŵp ffocws gyda phobl ar gyflog byw, ac mae angen iddyn nhw gymryd amser allan o'u gwaith sifft i fo dyn bresennol, efallai y dymunwch ystyried rhodd ariannol bach yn ddiolch am eu hamser.

Os ydych chi'n cynnal grŵp ffocws gyda phobl ynghylch diabetes a bwyta'n iach, efallai y byddwch am gynnig cymhelliant cysylltiedig, fel sesiynau gwybodaeth a llenyddiaeth iach, ac ati.

Mae'n bwysig ystyried efallai hefyd na fydd darparu cymhellion yn briodol nac yn deg, a'r rhesymau am hynny.

### Enghraifft

Mewn rhai achosion, gallai cymhelliant ariannol arwain at bobl sydd dan anfantais ariannol yn cael eu cynrychioli'n fwy na grwpiau eraill. Yr enw ar hyn yw gorgynrychiolaeth. Os ydych chi'n cynnal ymchwil nad yw'n canolbwyntio ar dlodi, gallai hyn fod yn amhriodol ac yn annheg.

Bydd gofyn cwestiynau i'ch hun am degwch a phriodoldeb yn eich cefnogi wrth ddatblygu rhesymeg glir am ddarparu neu beidio â darparu cymhellion.

## 6. Cyflwyno grwpiau ffocws effeithiol

Pan fyddwch wedi cynnal yr holl waith cynllunio angenrheidiol, mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno grŵp ffocws effeithiol. Mae **pedwar** peth y dylech chi eu hystyried:

- Sgiliau a phriodweddau'r hwylusydd;
- Gosod yr olygfa a thorri'r iâ;
- Llywio'r sgwrs; a
- Gorffen yn dda.

### 6.1 Sgiliau a phriodweddau'r hwylusydd

Mae hwyluswyr yn aml yn dylanwadu ar effeithiolrwydd grŵp ffocws. Mae'n syniad da ystyried pwy fydd hwylusydd/hwyluswyr eich grŵp ffocws, a pha sgiliau a phriodweddau fyddant yn dod â nhw, ymhell cyn ei gyflwyno.

| Eitem                     | Pethau i feddwl amdany'n nhw   |
|---------------------------|--|
| <b>Nifer yr hwyluswyr</b> | Yn ddelfrydol, dylai dau berson hwyluso grŵp ffocws. Dylai un allu cyflwyno'r pwnc ac arwain y drafodaeth, tra dylai'r llall allu cymryd nodiadau a chefnogi gweithgareddau grwpiau bach, ac unrhyw anghenion eraill sydd gan y grŵp.  |
| <b>Di-duedd</b>           | Ydy'r hwylusydd yn ddi-duedd? Ydy'n gallu rheoli ei farn bersonol ei hun er mwyn peidio â dylanwadu ar y drafodaeth a chanfyddiadau'r grŵp ffocws?   |
| <b>Sgiliau pobl da</b>    | Oes gan yr hwylusydd sgiliau pobl da? Ydy'n gallu gwneud i bobl ag anghenion, sgiliau a chefnidiroedd amrywiol deimlo'n gysurus ac ymlacio? Ydy'n hynaws ac yn hawdd mynd ato/ati?   |
| <b>Sgiliau cyfathrebu</b> | <i>Sgiliau holi a threiddio</i> – Ydy'r hwylusydd yn gallu cadeirio a llywio sgwrs? Yn meddu ar sgiliau gwrando da? Ydy'n gallu gwneud i bob cyfranogwr deimlo eu bod yn cael eu gwrando a'u deall?<br><i>Sensitifrwydd</i> – Ydy'r hwylusydd yn gallu darllen yr ystafell yn sensitif, a nodi pan fydd cyfranogwr efallai'n teimlo'n anghysurus, neu fel arall, ydy'n gallu nodi pan fydd cyfranogwr yn awyddus i gyfrannu? Ydy'n gallu sicrhau bod gan yr holl gyfranogwyr ddigon o gyfleoedd i rannu eu safbwyntiau'n ddigonol? |



| Eitem                        | Pethau i feddwl amdany'n nhw  |
|------------------------------|---|
| <b>Cadw amser</b>            | Ydy'r hwylusydd yn drefnus ac yn gallu sicrhau bod pob cwestiwn yn cael sylw cynhwysfawr o fewn y cyfnodau sydd wedi'u dyrannu, cadw at egwylliau ac ati? Ydy'n bendant ac yn gallu symud y sgwrs yn ei flaen ar adegau angenrheidiol?  |
| <b>Deall nodau'r ymchwil</b> | Nid oes angen i'r hwylusydd fod yn ymchwilydd cymwys i wneud tasg effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ganddo/ ganddi ddealltwriaeth gadarn o nodau'r ymchwil er mwyn gallu cyfleu'r pethau hyn yn glir i gyfranogwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am ganlyniadau arfaethedig y grŵp ffocws. |

## 6.2 Cychwyn grŵp ffocws

Bydd dechrau eich grŵp ffocws a'ch ychydig o gwestiynau cyntaf yn holl-bwysig i sicrhau bod eich cyfranogwyr yn ymlacio ac annog trafodaeth. Mae'n ddefnyddiol felly treulio tipyn o amser yn gosod yr olygfa ar ddechrau'r grŵp ffocws, er mwyn i gyfranogwyr ddod yn gyfarwydd â nodau'r grŵp ffocws a chodi unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw. Dylech chi gymryd tua 10-15 munud i gychwyn y grŵp ffocws.

Dylai'r hwylusydd ddefnyddio'r cyflwyniad gosod yr olygfa i:

- Groesawu cyfranogwyr;
- Cyflwyno ei hunan;
- Trafod unrhyw faterion ymarferol yn ôl yr angen (mynediad i'r toiledau, cyfleusterau, ymarferion tân ac ati);
- Diffinio pwrpas y grŵp ffocws a sut y caiff data ei ddefnyddio;
- Amlinellu'r polisi preifatrwydd a ffurflenni cydsyniad, ac atgyfnerthu gallu cyfranogwyr i dynnu cydsyniad yn ôl os byddant yn dymuno; a
- Gosod rhai rheolau sylfaenol ac atgoffa cyfranogwyr:
  - "Hoffem ni i bawb gymryd rhan"
  - "Efallai y bydda i'n galw arnoch chi os na fydda i wedi clywed wrthy'ch chi am sbel"
  - "Does dim atebion cywir nac anghywir"
  - "Mae profiadau a barn pob person yn bwysig"

- “Dylen ni bob amser wrando ar ein gilydd (dim sgysiau ar yr ymylon yn ystod y brif drafodaeth)”
- “Mae pob croeso i chi fod yn agored ac yn onest”
- “Lleiswch eich barn p’un a ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno”
- “Mae safbwyntiau sy’n cael eu mynegi gan gyfranogwr yn gyfrinachol ac mae’n rhaid peidio ag ailadrodd gwybodaeth tu allan i’r grŵp ffocws. Fodd bynnag, bydd y data (trawsgrifiadau/ recordiadau/ nodiadau ymchwil) yn cael eu gweld gan y sawl a restrir yn y polisi preifatrwydd a bydd y canlyniadau’n cael eu hadrodd yn unol â’r polisi preifatrwydd.”

### Torri’r îâ

Mae gweithgareddau torri’r îâ yn ffordd wych o helpu cyfranogwyr i ymlacio ac annog eu hymgysylltiad a’u cyfranogiad llawn. Nid oes angen i dorri’r îâ ymwneud â’r pwnc dan sylw o gwbl, mae ond angen iddo ysgogi sgwrs a rhoi cyfle i bawb siarad. Mae’n fuddiol os ydy’r gweithgareddau torri’r îâ a ddewiswch yn berthnasol i’r bobl sydd yn y grŵp ffocws e.e. eu cefndir, a’u diddordebau.

### Enghreifftiau:

Mewn grŵp ffocws o bobl ifanc, efallai y dewiswch ddull torri’r îâ sy’n gofyn iddyn nhw gyflwyno eu hun a siarad am eu hoff gerddoriaeth, ffilm, gêm, ac ati, i gefnogi eu hymgysylltiad a’u lefelau diddordeb.

Mewn grŵp ffocws gyda rhieni, efallai y gofynnwch iddyn nhw beth maen nhw’n gwneud i ymlacio a chael hwyl gyda’u plant a theuluoedd.

### 6.3 Llywio’r drafodaeth

Ar ôl i chi osod yr olygfa a thorri’r îâ, mae’n ddefnyddiol meddwl am sut all y drafodaeth gael ei rheoli’n llyfn er mwyn annog cyfranogiad llawn. Bydd hyn yn helpu i gynhyrchu data ansawdd da. Mae nifer o bethau gallwch chi eu gwneud i gefnogi hyn:

**Gofyn nifer fach o gwestiynau** – Rydym ni’n argymhell dim mwy na phedwar pwynt trafod neu gwestiwn. Fel arfer byddai hyn yn cynnwys un cwestiwn ymgysylltu, a thri chwestiwn archwilio gyda chyfle i ddatrys unrhyw beth sy’n dal yn ben-agored trwy’r cwestiynau ymadael. Bydd llai o gwestiynau yn gadael amser i gyfranogwyr gyfrannu’n feddylgar at bob cwestiwn a chynnig ymatebion cynhwysfawr. Hefyd mae’n osgoi gorflinder ymhlith cyfranogwyr.

**Gwranddo'n astud** – mae'n bwysig gwranddo er mwyn sicrhau bod atebion cyfranogwyr yn cael eu deall yn gywir gan hwyluswyr. Mae hyn yn bwysig hefyd i sicrhau bod holl gyfraniadau grŵp ffocws yn cael eu deall yn dda gan bob cyfranogwr, er mwyn i gyfranogwyr allu ymateb yn gywir i feddyliau a phrofiâu ei gilydd a myfyrio arnyn nhw. Gall **treiddio a mynd ar drywydd** ac **aralleirio** ymatebion cyfranogwyr gefnogi hyn.

- **Treiddio a mynd ar drywydd** – pan fydd yr hwylusydd yn gofyn cwestiynau pellach i'r cyfranogwr er mwyn casglu manylion pellach neu eglurdeb am beth maen nhw wedi'i ddweud.

### Enghraifft:

**Ymateb cyfranogwr:** Roedd y gwasanaeth yn iawn, ond dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n gwranddo arna i bob tro.

**Ymateb yr hwylusydd:** Ym mha ffyrdd oeddech chi'n teimlo nad oedden nhw'n gwranddo arnoch chi? Allwch chi roi enghraifft o pryd digwyddodd hyn a sut oeddech chi'n teimlo?

- **Aralleirio** – mae hyn yn digwydd wrth i'r hwylusydd wrando ar ymatebion y cyfranogwyr ac yn eu hadlewyrchu'n ôl yn ei eiriau ei hun, a hynny er mwyn sicrhau nod y neges a gyfleuodd y cyfranogwr wedi cael ei deall yn llawn.

### Enghraifft:

**Ymateb cyfranogwr:** Roeddwn i'n teimlo'n ddig iawn a doedd dim ots ganddyn nhw beth roeddwn i'n gofyn amdano ganddyn nhw.

**Aralleirio gan hwylusydd:** Felly, ydych chi'n dweud pan ofynoch chi am y gefnogaeth yna, nad oeddech chi'n teimlo eu bod yn gwerthfawrogi nac yn hido eich pryderon a gwnaeth hynny i chi deimlo'n ddig? Ydy hwnna'n gywir?

**Heriau'r hwylusydd** – O fewn grŵp ffocws mae'n debygol y bydd cyfranogwyr ag arddulliau cyfathrebu a dysgu amrywiol.

Er enghraifft, efallai bod rhai cyfranogwyr yn ymgysylltu'n fawr iawn, gyda llawer o feddyliau a theimladau i'w cyfrannu. Fodd bynnag, mae perygl y bydd y cyfranogwyr hyn yn dominyddu'r sgwrs ac yn gelyniaethu cyfranogwyr eraill os na fydd eu mewnbwn brwdfrydig yn cael ei reoli'n dda gan yr hwylusydd. Gall hwyluswyr reoli'r sefyllfaoedd hyn trwy **ddiolch i'r cyfranogwyr yn**

**gwrtais ac yn bendant** am eu hamser ac agor y sgwrs i fyny i'r ystafell gyfan ac annog eraill i gyfrannu. Mae iaith corff yn gallu cael ei defnyddio'n fedrus i awgrymu'n gynnil ac yn gwrtais i gyfranogwyr bod angen cyfraniad oddi wrth bawb sy'n bresennol. Ar ôl i gyfranogwyr brwdfrydig orffen siarad, gall hwyluswyr symud eu hyswyddau a nodio eu pen yn gorfforol tuag at rannau eraill o'r ystafell er mwyn annog cyfranogiad ehangach.

Er bod rhai cyfranogwyr yn frwdfrydig iawn, efallai bod rhai'n dawelach ac yn llai cyfforddus yn cyfrannu eu meddyliau. Gall hwyluswyr reoli'r sefyllfaoedd hyn trwy ddefnyddio **cysylltiad llygaid ac iaith corff positif** i annog cyfranogwyr tawelach i gyfrannu. Hefyd gallan nhw brocio'r cyfranogwyr hyn yn gynnil: "Dyn ni ddim wedi clywed wrthy ch chi am sbel, beth ydy'ch meddyliau chi? Oes unrhyw beth hoffech chi adio at hyn?"

Weithiau bydd cyfranogwyr yn rhoi atebion annelwig neu unsillog. Gall hwyluswyr reoli'r sefyllfaoedd hyn trwy **aralleirio a gofyn cwestiynau dilynol**.

### 6.4 Beth yw grŵp ffocws rhithiol?

Ni fydd yn bosibl bob tro cynnal grwpiau ffocws mewn gweithdy wyneb yn wyneb traddodiadol. Mae grwpiau ffocws rhithiol yn gadael i chi wahodd cyfranogwyr i leoliad rhithiol lle mae trafodaethau grwpiau bach a mawr yn gallu cael eu hwyluso. Mae llawer o blatfformau rhithiol sy'n gallu cael eu defnyddio, fel:

- Google Meets;
- Zoom;
- Skype; a
- Microsoft Teams.

Ond mae rhai pethau i'w hystyried wrth gyflwyno grwpiau ffocws rhithiol:

- **Mynediad i'r rhyngwrwyd/dyfais** – Nid oes gan bawb fynediad i gyfrifiadur a/neu'r rhyngwrwyd. Efallai y byddwch chi am dreulio amser yn ystyried a oes gan eich cyfranogwyr hygyrchedd digonol i TG ac ym mha ffyrdd allwch chi gefnogi hyn. Er enghraifft, allech chi roi benthyg offer am gyfnod y grwpiau ffocws? Oes gennych chi ystafell ag offer TG y gall pobl ei mynychu?
- **Anawsterau technoleg** – Mae gwybodaeth a lefelau sgiliau TG yn gallu amrywio ymhlith cyfranogwyr a hwyluswyr, felly efallai y byddwch chi am ystyried rhoi amser i wneud defnyddwyr yn gyfarwydd gyda meddalwedd y cyfarfod ac ati cyn y grŵp ffocws.

- **Technoleg wahanol** – Mae pobl yn defnyddio llawer o wahanol fathau o ddyfais (ffonau, gliniaduron, iPads, ac ati), ac mae llawer o wahanol fodolau i'r rhain, sy'n golygu y gall y feddalwedd a ddewiswch ar gyfer eich grŵp ffocws o bosibl yn gweithio'n wahanol i gyfranogwyr. Gallech chi awgrymu sesiwn peilot er mwyn i gyfranogwyr gael profiad o sut mae'r feddalwedd yn gweithio ar eu dyfais nhw cyn y grŵp ffocws neu gynnig rhagor o amser cyn i'r grŵp ffocws ddechrau i ymdrin ag unrhyw broblemau technoleg/TG.
- **Trafodaeth a dynameg grŵp** – Weithiau mae cyflwyno grwpiau ffocws rhithiol yn gallu bod yn gysylltiedig â heriau rhyngweithio penodol. Weithiau, gall beri i bobl deimlo'n fwy gochelgar ac ymwybodol, a all arwain atyn nhw'n troi eu camera i ffwrdd neu fod yn llai llafar. Ond bydd eraill yn teimlo'n fwy rhydd i leisio eu barn trwy'r fforymau hyn. Hefyd, os bydd pobl yn mynychu grŵp ffocws rhithiol o'u cartref, mae'n debygol y bydd pethau eraill yn tynnu eu sylw y mae angen iddynt ymdrin â nhw, fel plant, anifeiliaid anwes, danfoniadau ac ati. Mae sgiliau hwyluso da (gweler [Adran 6.1](#)) a rheolau cadw tŷ sydd wedi'u cytuno, yn gallu helpu gyda'r materion hyn. Bydd pob gan bob ateb TG swyddogaethau meddalwedd a all gael eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad cynhwysol, gan gynnwys:
  - swyddogaeth sgwrsio;
  - eiconau codi llaw;
  - eiconau ymateb emosiynol (bys bawd i fyny, wyneb gwenu, ac ati); ac
  - ystafelloedd ymneilltuo (os bydd pobl yn teimlo'n fwy cysurus yn rhoi eu barn mewn grwpiau llai o faint).
- **Cyfleusterau recordio** – Mae gan rywfaent o feddalwedd cyfarfod gyfleuster recordio, sy'n gallu bod yn ddefnyddiol am gynnal grwpiau ffocws y mae angen eu recordio ond cofiwch y gall god goblygiadau GDPR i hyn ac y bydd cydsyniad blaenorol yn angenrheidiol.

### 6.4 Dod â'ch grŵp ffocws i ben

Mae'n bwysig dod â'ch grŵp ffocws i ben ar nodyn positif. Mae hwn yn gyfle da i grynhoi'r pethau pwysig sydd wedi cael eu dysgu o'r grŵp ffocws ac i fyfyrion ar rai o'r materion a ddaeth i'r amlwg. Argymhellir eich bod chi'n dod â'ch grŵp ffocws i ben gyda **chwestiwn ymadael**, (gweler [Adran 4.3](#)), i gipio profiadau'r cyfranogwyr a nodi unrhyw feysydd sydd angen eglurhad pellach.

Mae bob amser yn dda diolch i'r cyfranogwyr am eu hamser a'u cyfranogiad. Hefyd dylai'r hwylusydd esbonio'r camau nesaf yn eich ymchwil, yn ogystal â gadael iddynt wybod sut byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau:

- am sut i gael gafael ar unrhyw ôl-ofal y gall fod ei angen ar y cyfranogwyr mewn perthynas â materion a drafodwyd neu a godwyd yn y grŵp ffocws (fel pryderon iechyd, neu bryderon am gamdriniaeth);
- rhoi manylion cysylltu gwasanaethau a sefydliadau perthnasol i gyfeirio ymholiadau pellach atynt; a
- rhoi gwybodaeth bellach am sut y rhoddir gwybod i gyfranogwyr am ganfyddiadau, allbynnau a chanlyniadau terfynol yr ymchwil, lle bo angen.

## Cyfeiriadau a darllen pellach

### Disgrifiadau o grwpiau ffocws

1. The Association for Qualitative research: <https://www.aqr.org.uk/>
2. Public Health England: Gov.uk: <https://www.gov.uk/guidance/focus-group-study-qualitative-studies>
3. Cyngor ar Bopeth y DU: <https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Equalities/How to run focus groups guide.pdf>

### Cyfranogiad cynhwysol

4. Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru: <https://info.copronet.wales/>
5. Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan: <https://allwalespeople1st.co.uk>

### Dirlawnder

6. What Influences Saturation? Estimating Sample Sizes in Focus Group Research (2019): <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC6635912/>

### GDPR a chydysniad ar sail gwybodaeth

7. Swyddfa'r Comisiynydd Annibynnol: <https://ico.org.uk/>
8. Social Research Association Research Ethics: <https://www.the-sra.org.uk/SRA/Ethics/Research-ethics-guidance/SRA/Ethics/Research-Ethics-Guidance.aspx>

Am wybodaeth bellach am yr  
arweiniad hwn neu i weld ein  
cyfres o arweiniadau ewch i:

 [www.data.cymru](http://www.data.cymru)

 [ymholiadau@data.cymru](mailto:ymholiadau@data.cymru)

 029 2090 9500

 Data  
**cymru**